



## **Gweledigaeth Cwricwlwm Ysgol Gymraeg Dewi Sant** **“Tyfu a Llwyddo Gyda’n Gilydd”**

Cynlluniwn gwricwlwm eang a chytbwys sydd yn datblygu rhinweddau'r [pedwar diben](#), yn rhoi ystyriaeth lawn i bob un o'r chwe maes dysgu a phrofiad ac yn cwmpasu'r datganiadau o'r [hyn sy'n bwysig](#). Lluniwyd y cwricwlwm gydag ystyriaeth a chyfranogiad holl randdeiliaid yr ysgol â'r ethos gytun o sicrhau cymuned ofalgar ac addysg gynhwysol, arloesol a phwrpasol.

Mae lles ein disgyblion yn ganolog i'n cwricwlwm. Mae gweledigaeth ein cwricwlwm wedi'i wreiddio yng ngwerthoedd, diwylliant a thraddodiadau Cymru a chymuned leol Llanilltud Fawr. Magwn **ddinasyddion egwyddorol, gwybodus** sy'n ymfalchio yn eu **cynefin, Cymru a'r iaith Gymraeg**.

Cyd-gynlluniwn i ddatblygu cwricwlwm cynhwysol i ennyn diddordeb disgyblion **uchelgeisiol ac ymholgar** trwy brofiadau dysgu pwrpasol a chyffrous. Ymrwymwn i sicrhau bod unigolion yn cyrraedd eu llawn potensial a bod ganddynt ddyheadau uchel i lwyddo heddiw ac yn y dyfodol.

Mae datblygiad llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol yn wraidd i'n cwricwlwm, ochr yn ochr â chyfluoedd dysgu ymarferol yn y dosbarth ac yn yr awyr agored. Hyrwyddwn brofiadau a fydd yn galluogi'r plant i ddatblygu'r sgiliau angenrheidiol i fod yn **ddysgwyr iachus a hyderus**.

Rydym yn teilwra'r dysgu i roi cyfluoedd i bob plentyn ac ac i bob gallu wrth iddynt ddatblygu sgiliau ac archwilio cysyniadau. Bydd y rhain yn eu galluogi i weithio'n **fentrus ac yn greadigol** wrth gaffael eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth trwy destunau a fydd yn dal eu diddordeb ac yn ysgogi eu dychymyg.

Cydnabyddwn fel ysgol mai diben [asesu](#) yw cefnogi pob dysgwr unigol i symud ymlaen yn briodol can sicrhau eu bod yn cael eu cefnogi a'u herio yn unol a hynny. Ein prif ffocws yw i gefnogi dysgwyr unigol yn barhaus a nodi, cipio a myfyrio ar eu cynnydd dros amser. Yn ychwanegol i hynny anogwn ddysgwyr i fyfyrion annibynnol i lywio darpariaeth y dyfodol.

Cyd-gynlluniwn yn agos gyda chlwstwr Ysgolion Bro Morgannwg wrth ddatblygu a mapio'r camau cynnydd yn y chwe maes dysgu a rhannwn arfer dda. Ystyriwn lais y disgybl wrth baratoi ein cwestiynau ymholi a themau tymhorol. Byddwn yn myfyrio ac yn mireinio y cwricwlwm yn gyson gan ystyried gwerthusiadau gan ein rhanddeiliaid fel rhan o'n prosesau hunan-arfarnu ar lefel bob Cam Cynnydd ac fel ysgol gyfan.

Yn unol â datblygiadau Llywodraeth Cymru a chyflwyniad y Cwricwlwm i Gymru sydd ar ddod, rydym yn parhau i ddatblygu a dylunio ein cwricwlwm ysgol ein hunain. Byddwn yn treialu, yn gwerthuso ac yn esblygu'r cwricwlwm er mwyn sicrhau'r gorau ar gyfer disgyblion Ysgol Gymraeg Dewi Sant.

"Cwricwlwm i Gymru - Cwricwlwm am Oes"  
Ysgol Gymraeg Dewi Sant, Mehefin 2022



## Curriculum Mission Statement for Ysgol Gymraeg Dewi Sant “Tyfu a Llwyddo Gyda’n Gilydd”

As a school we plan a broad and balanced curriculum that develops the elements of each of the [four purposes](#), takes full account of each of the six areas of learning and experience and meets the requirements of the [what matters statements](#). The curriculum has been designed with the consideration and contribution of all stakeholders in the school with the agreed ethos of ensuring a caring community and an inclusive, innovative and purposeful education.

The wellbeing of our pupils is at the heart of our curriculum. Our curriculum vision is rooted in the values, culture and traditions of Wales and the local community of Llantwit Major. We nurture **ethical, informed citizens** who are proud of their **cynefin, of Wales and of the Welsh language**.

We plan together to develop an inclusive curriculum to engage **ambitious and inquisitive** pupils through purposeful and exciting learning experiences. We commit to ensuring that individuals reach their full potential and have high aspirations to succeed today and in the future.

The development of literacy, numeracy and digital competence is at the heart of our curriculum, alongside practical learning opportunities both in the classroom and in the outdoors. We aim to promote experiences that will enable the children to develop the necessary skills to be **healthy and confident** individuals.

We tailor learning to provide opportunities for all children and abilities as they develop skills and explore concepts. These will enable them to **contribute creatively and with enterprise** whilst building their knowledge and understanding through topics that will capture their interest and stimulate their imagination.

As a school, we recognise that the purpose of [assessment](#) is to support all individual learners to progress appropriately and to ensure that they are supported and challenged accordingly. Our main focus is to identify, capture and reflect on their progress over time. In addition to that, we encourage learners to reflect independently on their learning so as to inform future provision and to make continual improvements.

We work alongside the Vale of Glamorgan Schools cluster in developing and mapping the Progress Steps in the six areas of learning and we willingly share good practice. We consider the pupil's voice when preparing our Questions of Enquiry and seasonal topics. Over time, we will constantly reflect and refine the curriculum taking into account evaluations by our stakeholders as part of our self-evaluation processes at each progress step and at whole school level.

In line with Welsh Government developments and the forthcoming introduction of the Curriculum for Wales, we are continually developing and designing our school curriculum. We will trial, evaluate and evolve the curriculum to ensure the best for our pupils at Ysgol Gymraeg Dewi Sant.